# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 06/11/19

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Paul J. Rowlinson (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Humphreys a Mike Stevens

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Dashu – Scott Smith (Bwdiaeth)

**Athrawon:** Miriam Amlyn (NASUWT)

**Swyddogion:** Buddug Mair Huws (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Gynorthwyol a Chlerc CYSAG) ac Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Dewi Roberts, Elin Walker Jones, Heledd Jones (Undebau Athrawon), Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Cathryn Davey (UCAC), Edward Pari-Jones (Dyneiddwyr)

Cadarnhaodd y Cadeirydd, er bod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law, bod cworwm.

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Cynghorydd Paul Rowlinson.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatgan buddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd materion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i'r cywiriadau canlynol:

Presenoldeb – angen cofnodi presenoldeb Y Cynghorydd Mike Stevens
Eitem 8 - defnyddir y term ymddiswyddiadau - angen cywiro hwn i ddiswyddiadau
Yn y cofnod, 'Ymateb Llythyr Kirsty Williams' awgrymwyd ysgrifennu at Kirsty Williams - nodwyd bod y cofnod yn aneglur ac mai'r penderfyniad oedd ysgrifennu at Kirsty Williams a Siân Gwenllïan fel Aelod Cynulliad.

**5. DOGFEN YMGYNGHORI LLYWODRAETH CYMRU : YMGYNGHORIAD YNGHYLCH CYNIGION I SICRHAU Y GALL POB DYSGWR FANTEISIO AR Y CWRICWLWM LLAWN**

Arweiniodd Mair Huws y drafodaeth ar ymatebion y Cyngor i'r ddogfen ymgynghori a nodwyd y pwyntiau cyffredinol canlynol cyn ymateb i'r cwestiynau penodol :-

Mae yn gamgymeriad nadu rhieni rhag gwneud unrhyw beth
Ar y llaw arall, ni ddylid rhoi y dewis i rieni a dylid tynnu yr hawl oddi wrthynt
Mae yn bwysig i blant gael addysg lawn, gytbwys
Mae yn anodd deall paham fyddai rhieni am wrthod i'w plant wneud y pwnc
Mae gwerth mawr i'r pwnc gan ei fod yn bwnc sydd yn cyffwrdd â chymaint o bynciau eraill
Mae angen i'r pwnc gael ei drin yn gyfartal, fel pynciau eraill - hynny yw, nid oes opsiwn i eithrio allan o bynciau eraill
Tybed fyddai newid enw y pwnc o gymorth? Onid yw plant yn eu colled o beidio bod yn mynychu y gwersi hyn?

Nodwyd y byddai yn ddiddorol cael y ffigyrau sydd yn dangos faint o rieni sydd wedi tynnu eu plant allan o wersi y pwnc drwy Wynedd.

Cyfeiriwyd at y plant rheiny sydd yn cael eu dysgu adref a chwestiynwyd a ydynt yn cael gwersi addysg grefyddol? Awgrymwyd efallai y byddai modd i CYSAG greu pecyn neu restr ddarllen ar eu cyfer. Nododd Mair Huws y byddai yn holi yr Adran ac yn trefnu i'r mater gael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cymerwyd pleidlais ar y mater a chytunwyd bod y CYSAG o blaid tynnu yr hawl i eithrio. Cytunwyd y byddai Mair Huws yn cynnwys y sylwadau uchod wrth ymateb i'r cwestiynau fel a ganlyn :

**Cwestiwn 1** – Beth fyddai'r goblygiadau i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion petai'n ofynnol i bob dysgwr gael gwersi Addysg Grefyddol a/neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd?
Nodwyd fod gan rieni yr hawl i dynnu eu plant o bethau eraill, ond hefyd bod gan ddisgyblion hawliau hefyd. Nodwyd ei bod yn drafodaeth anodd, ond diddorol. Mae yn bwysig peidio anwybyddu hawliau rhieni, ond cwestiynwyd pam tynnu sylw i'r pwnc arbennig hwn. Nodwyd nad oes goblygiadau i rieni na phlant gan ei fod yn statudol ar hyn o bryd. Efallai mai un goblygiad fyddai mwy o addysgu yn y Cartref?

**Cwestiwn 2** –Pa gymorth, gwybodaeth ac arweiniad fyddai eu hangen petai'r dull gweithredu hwn yn cael ei fabwysiadu?
Nodwyd y byddai rhieni angen gwybodaeth gefndirol ac y byddai angen pecyn ar y penaethiaid. Nodwyd gyda'r holl newidiadau sydd yn mynd ymlaen yn y maes Dyniaethau ac Addysg Iechyd, bod angen llawer iawn o gymorth yn gyffredinol ar ysgolion

**Cwestiwn 3 –** Ein cynnig yw na ddylai rhieni/gofalwyr allu atal eu plant rhag cael gwersi Addysg Grefyddol neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Caiff hyn ei gyflwyno o fis Medi 2022, i bob dysgwr oed cynradd a dysgwyr ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd (gyda grwpiau blwyddyn eraill yn cael eu hychwanegu bob blwyddyn).
Gweler uchod.

**Cwestiwn 4 –** Beth sy'n enw priodol i 'addysg grefyddol', er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach a gynigir ar gyfer y cwricwlwm newydd yn gywir?
Cafwyd yr awgrymiadau fel a ganlyn :
Mae angen newid o Addysg Grefyddol er mwyn dangos ehangder y pwnc.
Beth am Bydolwg (yn hytrach na Bydolygon), gan nad oes angen cyfieithiad union o 'World Views'? Mae'n bwysig peidio â cholli yr elfen Ysbrydol.

<u>Penderfynwyd</u> nodi y byddai newid yr enw yn syniad da, ond nad oes enw sydd yn cael ei ffafrio

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai peidio â chynnwys yr hawl i dynnu yn ôl yn eu cael ar yr iaith Gymraeg

Nodwyd bod tueddiad i blant ddewis y pynciau dyniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, petai y ddogfennaeth yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg, yna ni ragwelir unrhyw broblem. Nodwyd ei bod yn angenrheidiol derbyn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr run amser.

**Cwestiwn 6** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:
Nodwyd ei bod yn angenrheidiol bod unrhyw ddogfennau Cymraeg a Saesneg yn cyrraedd ar yr un amser, ynghyd ac unrhyw ganllawiau neu lyfrynnau. Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol.
Nodwyd bod unrhyw newid mawr angen amser ar gyfer paratoi ac arweiniad priodol.

## 6. HUNAN ARFARNU YSGOLION

Derbyniwyd yr adroddiad.

Penderfynwyd: ysgrifennu ar yr ysgolion i'w llongyfarch, ac i ail-wahodd Glenda Evans i'r cyfarfod nesaf.

## 7. AWDIT ORIAU GWERSI ADDYSG GREFYDDOL MEWN YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd bod amrywiaeth a gwahaniaeth o ysgol i ysgol. Nodwyd y byddai yn ddiddorol cymharu y canlyniadau yn erbyn yr amser sydd yn cael ei roi i'r disgyblion.
Penderfynwyd ail-gysylltu â'r ysgolion i ofyn am ddadansoddiad o'r ffigyrau. Nodwyd os mai gwaelodlin yw hon yna mae angen iddi fod yn hollol gywir.

## 8. COFNODION CYFARFOD CYSAGAU CYMRU 28AIN MEHEFIN 2019

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2019

Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.20 pm

**CADEIRYDD**